

# Pob peth

*“Crist yn och chwi, gobaith y gogoniant.” (adn. 27)*

## Beth am ddarlenn Colosiaid 1:24–29 ac yna myfyrio

Dywedodd un ymgymerwr angladdau wrthyf unwaith fod Cristnogion yn delio gyda marwolaeth mewn ffordd lawer iawn gwell na'r rhai nad ydynt yn Gristnogion. Gofynnais iddo pam ei fod yn tybied hyn? Wedi oedi am ychydig eiliadau, meddai, “Mae'n debyg oherwydd bod gan Gristnogion obaith tu hwnt i'r bedd.” Mae hyn yn syml, ond yn wir. Mae'r gair ‘gobaith’ yn air sydd angen eglurhad oherwydd ei fod yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae rhai pobl yn gweld gobaith fel peth tlawd iawn a rhyw freuddwyd, rhyw obaith gwag. Ond nid felly mae'r Testament Newydd yn disgrifio'r gair. Mae Paul yn gwneud gobaith yn un o rinweddau pennaf y bywyd Cristnogol.

Sut mae'r gymhariaeth yma, rhwng y rhai sydd yn ystyried gobaith fel breuddwyd a'r rhai sydd yn ei ystyried fel rhinwedd, yn codi? Nid yw'r ateb yn anodd. Mae'r ddau grŵp yn siarad am rywbeth hollol wahanol. Mae yna obaith sydd yn obaith, a gobaith sydd yn anobaith. Mae gobaith gwir, ac, mae gobaith gwag. Mae yna obaith sydd yn aur, ac mae yna obaith sydd yn wellt. Mae'r hyn y mae'r byd yn ei ddisgrifio fel gobaith yn aml yn ddim mwy na optimistiaeth. Wrth gwrs, mae optimistiaeth yn well na phesimistiaeth. Mae'r pesimist yn dweud, “Dwi'n meddwl fod yna laeth yn y gwpan yna.” Mae'r optimist yn dweud, “Estynnwch y llaeth, os gwelwch yn dda.”

Mae'r gobaith y mae'r Beibl yn siarad amdano, beth bynnag, yn obaith am fywyd y tu hwnt i'r bedd. Mae hyn yn fwy nag optimistiaeth. Mae wedi ei seilio ar ffaith ddigyfnawid atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw. Oherwydd, nid cyhoeddi bywyd wedi marwolaeth mae Iesu yn unig, ond ei arddangos. Heb yr arddangosfa yma, ni fyddai gan anfarwoldeb gymaint o apêl. Bellach, mae pob apêl yn perthyn iddo. Pob peth.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

1 Cor. 15:1–58; 1 Thes. 4:13–14; Math. 5:4

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd yn nodweddiadol o alar y Cristion?
2. Pam fod Paul yn dweud y medrwn sefyll yn gadarn?

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, petaet wedi methu yng ngwyneb angau, yna mi fuaswn innau'n methu hefyd, ac yn methu am byth. Ond fe groesaist yr afon yna i fywyd, a chan fy mod ynot ti, caf adnabod yr un bywyd. Gan na elli di farw, ni allaf innau ychwaith. Haleliwia! Amen.